



Camfanteisio'n Rhywiol ar Blant

(**Cyfeiriad:** Amddiffyn Plant a Phobl Ifanc rhag Camfanteisio Rhywiol Canllawiau ar Ddiogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004 gov.wales/topics/health/publications/socialcare/guidance1/exploitation/?skip=1&lang=cy)

Diffiniad:

Mae camfanteisio'n rhywiol ar blant yn golygu gorfodi neu ddylanwadu ar blant a phobl ifanc i gymryd rhan mewn gweithgareddau rhywiol. Mae'n fath o gam-drin rhywiol yn gyfnewid am ryw fath o daliad a all gynnwys arian, ffonau symudol ac eitemau eraill, cyffuriau, alcohol, lle i aros, 'amddiffyniad' neu anwyldeb. Mae natur ddiymgeledd y person ifanc a'r broses hudo a ddefnyddir gan y rhai sy'n cyflawni'r troseddau yn eu gwneud yn ddi-rym i adnabod natur gamfanteisiol y berthynas ac i roi caniatâd gwybodus.

Dioddefwyr yw plant, nid troseddwyr

Ni ddylid ystyried bod ymddygiad plant a phobl ifanc y camfanteisir yn rhywiol arnynt yn ymddygiad gwael neu droseddol: dioddefwyr cam-drin rhywiol ydynt. Y sawl sy'n eu cam-drin sy'n gyfrifol am gamfanteisio'n rhywiol ar blant neu bobl ifanc: naill ai'r sawl sy'n talu am ryw, rywsut neu'i gilydd, neu'r sawl sy'n paratoi'r plentyn at bwrpas rhyw a/neu sy'n trefnu i gamfanteisio ar blentyn.

Dylai ymchwiliadau'r heddlu a'r broses erlyn ganolbwyntio ar y rhai sy'n gorfodi plant a phobl ifanc, sy'n camfanteisio arnynt ac sy'n eu cam-drin.

Dylai ymateb aml-asiantaethol sicrhau nad yw rhwystrau megis gwahaniaethau yn rolau, diwylliant a safbwyntiau asiantaethau na ffactorau ymarferol eraill fel trosiant staff yn effeithio ar wybodaeth ac arfer arbenigol ym maes diogelu plant mewn ffordd sy'n niweidiol i blant a phobl ifanc.

Mae'r canllawiau wedi'u llunio'n bennaf ar gyfer partneriaid, rheolwyr ac ymarferwyr Byrddau Diogelu, ond maent yn berthnasol ar gyfer pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'r canllawiau yn cynnig cyngor ar gyfer y sefydliadau preifat a gwirfoddol hynny sy'n dod i gysylltiad â phlant, neu sy'n cynnig gwasanaethau iddynt. Fodd bynnag, yn aml mae gan asiantaethau gwirfoddol a chymunedol berthynas agos â'u cymunedau lleol a gallant helpu i ddatblygu perthynas onest a chadw cysylltiad â'r plentyn neu berson ifanc os ydynt yn cael eu "colli" i wasanaethau statudol.

Mae'r canllawiau yn berthnasol i fechgyn a merched hyd at 18 oed, p'run a ydynt yn byw yn annibynnol, gartref, gyda gofalwyr neu mewn lleoliad preswyl.

Dylai gweithwyr rheng flaen fod yn gyfarwydd â gwendidau a ffactorau risg cyffredin a allai fod yn arwydd o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant a dylent allu cyfeirio at y fframwaith asesu risg cam-fanteisio rhywiol (SERAF). www.barnardos.org.uk/serafservice.htm

Mae *Deddf Troseddu Difrifol 2015*, Rhan 5, yn cyfeirio at Amddiffyn Plant ac yn egluro'r gyfraith mewn perthynas â defnyddio cyfryngau cymdeithasol wrth gamfanteisio'n rhywiol ar blant.

Caiff **Anffurfio Organau Cenhedlu Benywod** (FGM) ei gydnabod fel trosedd gan y Ddeddf hon a rhaid i berson sy'n gweithio mewn proffesiwn a reoleiddir yng Nghymru a Lloegr hysbysu rhywun mewn awdurdod am hyn. Rhaid iddynt wneud hysbysiad o dan adran 5B ("hysbysiad FGM") os yw'r person, fel rhan o'i waith yn y proffesiwn, yn darganfod ei bod yn ymddangos bod gweithred anffurfio organau cenhedlu benywod wedi'i chyflawni ar ferch o dan 18 oed.

At ddibenion yr adran hon – person sy'n gweithio mewn "proffesiwn a reoleiddir" yw person sy'n:

- weithiwr iechyd proffesiynol
- athro, neu
- weithiwr gofal cymdeithasol yng Nghymru. (unigolyn wedi'i gofrestru gyda Gofal Cymdeithasol Cymru).



Hysbysu yng Nghymru

Bydd angen i weithwyr proffesiynol yng Nghymru hysbysu'r heddlu a'r awdurdod lleol.

Mae gweithdrefnau amddiffyn plant Cymru gyfan, sydd wedi'u mabwysiadu gan bob bwrdd diogelu yng Nghymru, yn darparu fframwaith cyson ar gyfer atgyfeirio, ystyried a phennu camau gweithredu gan bob partner diogelu yng Nghymru, yn cynnwys protocol penodol ar FGM. Mae'n ofynnol i unigolion hysbysu'r awdurdod lleol am unrhyw achosion hysbys o FGM.

Cam-drin Domestig

Mae'r Ddeddf yn gwneud ymddygiad lle mae rheolaeth ormodol neu reolaeth drwy rym mewn unrhyw berthynas deuluol, yn drosedd os yw'n golygu bod unigolyn yn ofni trais neu os yw'n cael effaith niweidiol ar ei weithgareddau bob dydd.

Yng Nghymru, mae **Deddf Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015** yn canolbwyntio ar atal problemau o'r fath, amddiffyn dioddefwyr a chynorthwyo'r rhai sy'n cael eu heffeithio gan hyn.

O dan y Ddeddf, bydd hi'n ofynnol datblygu Strategaeth Genedlaethol a bydd rhaid i awdurdodau lleol adrodd ar sut maent yn mynd i'r afael â thrais ar sail rhywedd, cam-drin domestig a thrais rhywiol yn eu hardaloedd.

Bydd canllawiau'n cael eu cyflwyno hefyd er mwyn sefydlu Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol i sicrhau bod grwpiau allweddol o weithwyr yn cael hyfforddiant i adnabod a mynd i'r afael â thrais ar sail rhyw, trais domestig a thrais rhywiol.

Proses o holi wedi'i dargedu yw **Gofyn a Gweithredu** a dylid ei defnyddio ym mhob rhan o'r gwasanaeth cyhoeddus i adnabod trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Bydd yn cynnig hyfforddiant (o dan ran 2 o'r Fframwaith Hyfforddiant Cenedlaethol) ar gyflwyno dull cam wrth gam o wneud ymholiadau.